

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD	DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE
DYDD MERCHER, 20 MAWRTH 2024 am 2.00 o'r gloch	WEDNESDAY, 20 MARCH 2024 AT 2.00 pm
CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR	HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY
Swyddog Pwyllgor	Shirley Cooke 01248 752514 Committee Officer

## AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

### Plaid Cymru / The Party of Wales

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Alwen Pennant Watkin (*Is-Gadeirydd/Vice Chair*)

### Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group

Gwilym O Jones

### Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party

Keith Roberts (*Cadeirydd/Chair*)

### Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents

Jeff Evans, Aled M Jones

## R H A G L E N

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023.

### 3 **PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

### 4 **DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 15 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)
- Y Cyngorwyr Non Dafydd, Jeff Evans, Carwyn E Jones, Gwilym O Jones, Llio A Owen, Dylan Rees
- WRTH LAW:** Pennaeth Democratiaeth  
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 4)  
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY) (ar gyfer Eitem 3)  
Swyddog Hyfforddi Adnoddau Dynol (AJ) (ar gyfer Eitem 5)  
Swyddog Pwyllgor (SC)
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Alwen P Watkin  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
- 

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Gan nad oedd yr Is-gadeirydd yn bresennol, gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor enwebu Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn, a chafodd y Cyngorwyr Gwilym Jones ei ethol.

#### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cyngorwyr Jeff Evans a Dylan Rees ddatgan diddordeb personol yn Eitem 3 ar y rhaglen (Paragraff 4.11.9), gan eu bod yn cynrychioli'r Cyngor ar gyrf allanol, sef Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

#### 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

##### **Materion yn codi o'r cofnodion:-**

Mewn perthynas â rhai aelodau nad ydynt yn cyflwyno adroddiadau blynyddol, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth iddo godi'r mater yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grwpiau ac mae'r Pwyllgor Safonau wedi codi'r mater hefyd. Dywedodd nad oes rhagor o adroddiadau blynyddol wedi dod i law ar gyfer 2022/23 ond dywedodd bod canran yr adroddiadau a dderbyniwyd yn uwch na'r llynedd. Nododd y byddai'n parhau i weithio gydag aelodau ac Arweinyddion Grwpiau ar y broses o gyflwyno adroddiadau blynyddol ar gyfer eleni, ond atgoffodd y Pwyllgor nad yw hyn yn ofyn statudol.

### 3. CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar Gyfansoddiad y Cyngor Sir, a fabwysiadwyd yn 2001 ac sydd wedi cael ei ddiweddarau a'i adolygu'n gyson i adlewyrchu newidiadau yn y gofynion cyfreithiol neu drefniadau lleol newydd. Diweddarwyd y Cyfansoddiad ddiwethaf ar 27 Hydref 2023.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) er mwyn comisiynu Cyfansoddiad Enghreifftiol newydd i'w ddefnyddio ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Dywedodd fod Atodiad 1 yn cynnwys fersiwn ddrafft o Adrannau 1 i 4 o'r Cyfansoddiad newydd arfaethedig ac mae Atodiad 2 yn amlygu materion a nodwyd fel rhai newydd neu wahanol gan y Swyddog Monitro a bod, felly, angen eu dwyn i sylw'r Pwyllgor. Nodwyd bod yr iaith yn fwy eglur yn y Cyfansoddiad newydd, mae trefn a threfn rhifo'r dogfennau'n haws ei ddilyn ac maent yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Gofynnodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) am farn y Pwyllgor ar Adrannau 1 i 4 o'r Cyfansoddiad newydd. Dywedodd y byddai rhan arall o'r Cyfansoddiad Enghreifftiol gerbron y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024. Nododd y caiff yr ymatebion i'r holl Adrannau eu cyfuno mewn un adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo ar ddyddiad diweddarach.

Ystyriodd y Pwyllgor y Cyfansoddiad Enghreifftiol drafft newydd, gan ymateb fel a ganlyn i'r materion a nodwyd yn Atodiad 2 yr oedd angen penderfyniad gan y Pwyllgor arnynt:-

1. (2.2) Diffiniadau yn y Cyfansoddiad

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

2. (2.4) Dyletswydd i Fonitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

3. (2.6.1) Cymeradwyo

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

4. (3.1.2) Gwybodaeth a fydd ar gael i Gynghorwyr y Cyngor

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

5. (4.6.25)

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

6. (4.10.1.1)

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar p'un a ddylid diwygio ymhellach y cynnig mewn perthynas â'r gofyn i'r Arweinydd nodi aelodau'r Cabinet a'u cyfrifoldebau mewn ysgrifen cyn pen 7 diwrnod. Barn y Pwyllgor oedd efallai na fyddai'r trefniant hwn yn ymarferol o fewn y terfyn amser a gofynnwyd am gael adolygu'r mater gwleidyddol hwn.

**PENDERFYNWYD bod y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn ceisio eglurhad ynglŷn ag oblygiadau mabwysiadu'r trefniant hwn pe ceid sefyllfa wleidyddol ddi-datrys.**

7. (4.10.1.3 (f))

Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cyhoeddiadau gan Arweinyddion Grwpiau i'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD bod rhaid i'r Cadeirydd gymeradwyo cyhoeddiadau gan Arweinyddion Grwpiau cyn y cyfarfod. Roedd y Pwyllgor yn cytuno y byddai o leiaf 24 awr yn gyfnod rhesymol ar gyfer hysbysu'r Cadeirydd am unrhyw gyhoeddiad cyn y cyfarfod.**

8. (4.11.9)

Eglurodd Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn cynrychioli Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru bod yr arian sy'n cael ei dderbyn tuag at yr Heddlu wedi'i gynnwys yn y Dreth Gyngor fel praesept, tra bod y Gwasanaeth Tân yn gosod ardoll ar awdurdodau lleol ac mae'n cael ei gynnwys yn y Dreth Gyngor gyffredinol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r ddau randdeiliaid dan sylw gyflwyno adroddiadau diweddar i'r Cyngor Sir, yn hytrach na bod cynghorwyr yn cyflwyno adborth ar ran y cyrff allanol.

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, ac y dylai cyrff allanol eraill ddarparu adborth dim ond pan fydd angen i'r Cyngor wneud penderfyniad neu ymateb i ymgynghoriad.**

9. (4.11.13)

**PENDERFYNWYD cadw at y sefyllfa bresennol a nodwyd fel Opsiwn A yn yr Atodiad i'r adroddiad.**

10. (4.11.14(b))

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

11. (4.13.2)

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

12. (4.16.4) Rhybudd o Gwestiynau

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

13. (4.16.5) Uchafswm Nifer y Cwestiynau

Gofynnodd aelod gwestiwn ynglŷn â geiriad y frawddeg, 'Bydd unrhyw gwestiynau sy'n weddill heb eu hateb yn cael eu hailgyflwyno i'r Prif Weithredwr ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor'. Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r geiriad, gan ei fod yn awgrymu y byddai'r cwestiynau'n cael eu rhoi yn awtomatig ar raglen y cyfarfod nesaf. Cytunodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) i edrych ymhellach ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad, ar yr amod bod y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn adolygu'r geiriad.**

14. (4.16.7) Cynnwys y Cwestiynau

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar sylwadau'r Swyddog Monitro, sef y gallai'r Cyngor gael polisi ar bron unrhyw beth a pham, felly, na fyddai'n deg i ofyn cwestiynau ffeithiol?

**PENDERFYNWYD derbyn cynnig y Swyddog Monitro i wrthod Adrannau (b) ac (c) fel y'u nodir yn Atodiad 2 o'r adroddiad.**

15. (4.16.8(c))

**PENDERFYNWYD, pan na ellir rhoi'r ateb ar lafar, bod ymateb ysgrifenedig yn cael ei ychwanegu at gofnodion y cyfarfod maes o law. Ni chytunwyd i gyhoeddi'r ymateb ar wahân. Penderfynodd y Pwyllgor hefyd y dylai ymatebion o'r fath gael eu cyflwyno yn unol ag amseroedd ymateb corfforaethol.**

16. (4.17.4) Cynnig i Gael Gwared ar yr Arweinydd

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

17. (4.17.5) Un Cynnig fesul Cyngorydd

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

18. (4.19) Trafodaeth ynghylch Cyflwr y Sir

**PENDERFYNWYD cynnal y sefyllfa bresennol, h.y. Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd, a nodir fel Opsiwn 1 yn Atodiad 2 yn yr adroddiad.**

19. (4.22.1) Llofnodi'r Cofnodion

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiad arfaethedig i 'ddilysu'r' cofnodion.**

20. (4.22.2) Dim Gofynion i Lofnodi Cofnodion Cyfarfod Blaenorol mewn Cyfarfod Arbennig

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

21. (4.23) Cofnod o Bresenoldeb

**PENDERFYNWYD cytuno gyda chynnig y Prif Weithredwr, fel y nodir yn yr adroddiad, h.y., creu un Gofrestr electronig.**

22. (4.26.3) Clirio Llwyfan Cyfarfod Ar-lein

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

23. (4.27) Ffilmio a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

24. (4.28) Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.**

25. (4.31) Penodi Dirprwyon ar Gyrrff y Cyngor

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig fel y'u nodir yn yr adroddiad, yn hytrach nag awgrym y Prif Weithredwr sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 o'r adroddiad.**

Gofynnodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) am ganiatâd y Pwyllgor i newid y rhifau ar y tudalennau 'Cynnwys' yn Atodiad 1, a chytunodd y Pwyllgor ar hynny.

#### **4. POLISI INDEMNIADAU'R CYNGOR**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol ynghlŷn ag adolygu a chymeradwyo Polisi Indemnïadau presennol y Cyngor, a fabwysiadwyd yn 2011, ac a adolygwyd ddiwethaf yn 2021.

Dyweddod y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod y Polisi Indemniadau wedi'i lunio yn 2006, pan ddaeth Gorchymyn Llywodraeth Leol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn ddeddfwriaeth a chaniatawyd awdurdodau lleol i gynnig indemniadau (ac yswiriant) i aelodau a swyddogion wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

Dyweddod y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod polisi yswiriant y Cyngor Sir yn cyflawni'r un rôl â'r Polisi Indemniadau yn y rhan fwyaf o feysydd, ond, yn ogystal â hynny, mae'n cynnig amddiffyniad i ddigolledu aelodau mewn achosion o dorri'r Cod Ymddygiad, gan fod y Cod tu allan i gwmpas y polisi yswiriant. Dyweddod mai'r cwmni yswiriant sy'n gosod telerau ac amodau'r yswiriant, gan benderfynu a fydd hawliad am indemniad o dan y polisi'n cael ei dderbyn neu ei wrthod. Nodwyd fod Polisi Indemniadau'r Cyngor Sir wedi cael ei ddiwygio yn 2013 i gynnwys cap o £20,000 ar unrhyw hawliad o dan y Gorchymyn. Adolygir y Polisi Indemniadau'n gynnar yn 2024.

Dyweddod y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod gan y Cyngor Is-bwyllgor Indemniadau sy'n penderfynu ar geisiadau am indemniadau sy'n cael eu cyflwyno'n unol â'r Polisi. Mae gan yr Is-bwyllgor y disgresiwn i ganiatáu ceisiadau am indemniad, a gall ganiatáu indemniad yn amodol ar delerau ac amodau, neu gall wrthod y cais. Dyweddod y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol nad oes hawl apêl tu hwnt i'r Is-bwyllgor, ac os canfyddir bod unigolyn yn euog a'i fod yn derbyn cosb, byddai'n rhaid ad-dalu unrhyw arian a dderbyniwyd. Os yw'r gosb a roddir yn llai difrifol na gwaharddiad, y Pwyllgor Safonau fydd yn penderfynu a ddylid ad-dalu'r indemniad ai peidio.

Mynegodd aelodau bryder nad yw'r cap o £20,000 wedi cael ei adolygu ers 2013. Mewn ymateb, dyweddod y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol nad oes trefniadau ar waith i adolygu'r taliad uchaf, ond dyweddod y gallai'r Is-bwyllgor adolygu'r cap pe byddai achos yn codi, ar yr amod bod rheswm dilys dros wneud hynny.

#### **PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r Polisi a'i bwrpas, sef arfer y pwerau a roddir i'r Cyngor gan y Gorchymyn.**
- **Bod y Pwyllgor yn dymuno i'r adolygiad ystyried cynyddu'r cap o £20,000 ar hawliadau, gan fod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers gosod y cap.**

#### **5. DATBLYGU AELODAU**

Cyflwynodd y Swyddog Hyfforddi Adnoddau Dynol ddiweddiad ar y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau ar gyfer 2023/24.

Dyweddod y Swyddog Hyfforddi AD fod y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 yn cael ei rannu i gategoriâu, yn ôl yr arfer, h.y. hyfforddiant gorfodol; hyfforddiant cyffredinol; lechyd a Llesiant. Mae'r hyfforddiant ar gael trwy gyflwyno cais neu ar ffurf Modiwlau E-ddysgu ar y Gronfa Ddysgu. Dyweddod fod 27 o sesiynau hyfforddi wedi cael eu cynnig i aelodau etholedig ers mis Ebrill 2023.



Cyfeiriwyd at Atodiad 2 yn yr adroddiad, ac mae'n nodi nifer yr aelodau sydd wedi derbyn gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant a'r nifer gwirioneddol a fynychodd y sesiynau. Nodwyd fod pob aelod wedi cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, mae 15 wedi mynychu hyfforddiant lechyd a Diogelwch (mae hyfforddiant ychwanegol wedi'i drefnu ym mis Chwefror 2024); mae 29 wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu Data ac mae 29 wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu. Dywedodd y Swyddog y bydd hyfforddiant corfforaethol a sesiynau Seiber Ddiogelwch ar gael i aelodau maes o law.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod y Tîm Hyfforddi Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democratiaidd yn parhau i gydweithio'n dda. Mae'r Tîm Hyfforddi'n rhannu diweddariad ynglŷn â hyfforddiant gyda'r Pennaeth Democratiaeth bob chwarter ac mae'n cael ei rannu gydag Arweinyddion Grwpiau. Dywedodd hefyd fod mwy o bwyslais erbyn hyn ar lechyd, Llesiant a hyfforddiant corfforaethol, ac mae hynny hefyd yn cynnwys elfen o ddiogelwch personol.

Dywedodd y Swyddog Hyfforddi Adnoddau Dynol fod hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn yr ystafell ddosbarth, er bod hyfforddiant ar-lein yn parhau i gael ei ystyried hefyd. Dywedodd fod y Cynllun Hyfforddi'n esblygu'n barhaus i gynnwys unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth ac ati. Nodwyd fod ymgais yn cael ei wneud i ddarparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, lle bo'n bosib, gyda chyfieithiad i'r Saesneg.

Mynegodd un o'r Aelodau bryder nad oedd yr un aelod etholedig wedi mynychu'r sesiwn 'ymwybyddiaeth menopos', er bod y 35 aelod wedi derbyn gwahoddiad. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Hyfforddi bod y sesiwn hon yn boblogaidd iawn ymysg staff a bydd yn cael ei chynnwys yn y rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

### **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## **6. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2024-25**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth ar gynigion drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2024-25.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod angen i'r Cyngor ymateb i ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar y cynigion drafft, ynghyd â chwe chwestiwn penodol arall, erbyn 8 Rhagfyr. Gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried a chyflwyno sylwadau ar y cynigion drafft ac awdurdodi swyddogion i ymateb yn unol â thrafodaethau'r Pwyllgor.

Ymatebodd y Pwyllgor fel a ganlyn:-

Cwestiwn 1 – Cynyddu cydnabyddiaeth ariannol drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod y taliadau arfaethedig i aelodau etholedig gyfystyr â chynnydd o 6%, sef cynnydd o £50,000 yn y gost o gymharu â'r flwyddyn

flaenorol. Dywedodd fod uwch swyddogion, gan gynnwys y Swyddog Adran 151, wedi derbyn y newidiadau arfaethedig.

#### Cwestiwn 2 – Hyblygrwydd lleol ar gyfer taliadau i aelodau cyfetholedig

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cynnig darparu hyblygrwydd lleol i swyddogion perthnasol dalu cyfradd yr awr i aelodau cyfetholedig yn hytrach na'r gyfradd diwrnod neu hanner diwrnod bresennol. Dywedodd fod y Pwyllgor Safonau yn cefnogi'r newid, ar yr amod nad yw'r gwaith ychwanegol yn creu baich gweinyddol i swyddogion. Nodwyd nad yw'r gydnabyddiaeth ariannol i aelodau annibynnol wedi codi yn unol â meysydd eraill ers 2021/22.

#### Cwestiwn 3 – Annog teithio cynaliadwy

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi gofyn am enghreifftiau o arferion da sy'n dangos sut mae'r Cyngor Sir yn annog neu'n cefnogi teithio cynaliadwy. Dywedodd fod y Cyngor wedi ymrwymo i deithio cynaliadwy ac mae'n cyfranogi trwy e.e. ddarparu cyfleusterau cadw beiciau; hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith; mae mapiau'n cael eu llunio i ddangos i'r cyhoedd sut y gallant deithio i'r pencadlys gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

#### Cwestiwn 4 – Ymwybyddiaeth o hawliau cynrychiolwyr

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gofyn am dystiolaeth o gamau a gymerwyd gan yr Awdurdod i sicrhau fod aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig yn ymwybodol o'r lwfansau a'r gwariant y gallant eu hawlio. Dywedodd y byddai'r Cyngor yn rhannu tystiolaeth i ddangos sut mae'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau e.e. bydd adroddiad terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei rannu gyda'r Cyngor llawn. Nodwyd hefyd fod cynigion Panel Annibynnol Cymru'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd ffurfiol ddwywaith y flwyddyn, ac mae gwybodaeth yn cael ei rannu mewn cyfarfodydd penodol. Mae tudalen ar wefan y Cyngor hefyd sy'n esbonio beth yw hawliau cynrychiolwyr.

#### Cwestiwn 5 – Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod y cwestiwn hwn yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu ymateb i'r cwestiwn hwn.

#### Cwestiwn 6 – Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno ar gyfer cyrff eraill

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod Panel Dyfarnu Cymru'n ystyried p'un a ddylid cyfuno rhai symiau sy'n cael eu cyhoeddi ar gyfer aelodau unigol o'r prif gynghorau. Dywedodd fod y Panel yn cynnig cyfuno costau teithio a chostau'n gysylltiedig â gweithio gartref er mwyn dangos y cyfanswm a dalwyd yn unig, gyda'r gobaith o annog mwy o aelodau i hawlio.

Mynegodd un o'r aelodau bryder am y bwriad i gyfuno treuliau a lwfansau oherwydd gallai greu'r argraff anghywir ac awgrymodd y dylid parhau i ddangos y treuliau ar wahân. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth mai bwriad y cynnig hwn yw cyfuno rhai o'r costau ychwanegol, ac y byddai lwfansau aelodau'n cael eu dangos ar wahân. Dywedodd y byddai'n gofyn am gadarnhad ynglŷn â'r mater hwn fel rhan o ymateb y Cyngor.

**PENDERFYNWYD bod y Pennaeth Democratiaeth yn ysgrifennu at Banel Dyfarnu Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gyflwyno sylwadau'r Pwyllgor ar y cynigion drafft, fel y nodir isod:-**

**Cwestiwn 1 – Derbyn y cynigion;**

**Cwestiwn 2 – Derbyn y cynigion a chynnwys y sylwadau a nodwyd;**

**Cwestiwn 3 – Derbyn y cynigion a darparu enghreifftiau o arfer dda yn y Cyngor ar hyn o bryd;**

**Cwestiwn 4 – Derbyn y cynigion a chynnwys y sylwadau a nodwyd ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn codi ymwybyddiaeth am hawliau cynrychiolwyr;**

**Cwestiwn 5 - Amherthnasol**

**Cwestiwn 6 – Derbyn y cynnig a gofyn am gadarnhad ynglŷn ag a fyddai lwfansau a threuliau yn cael eu dangos ar wahân.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12:20 pm

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS  
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

<b>Cyngor Sir Ynys Môn</b>	
<b>Pwyllgor:</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
<b>Dyddiad:</b>	20 Mawrth 2024
<b>Teitl yr adroddiad:</b>	Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blyneddol ar gyfer 2024 i 2025
<b>Adroddiad gan:</b>	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	Rhoi gwybod am benderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2024 i 2025

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforaethig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Fe gyflwynwyd adroddiad blyneddol drafft y Panel ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2023. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 28 Chwefror 2024 a bydd yn weithredol o Ebrill 2024.

## 2.0 Penderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2024-2025

### 2.1 Taliadau i aelodau etholedig

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r 15 deilydd swydd sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog a chyflog dinesig yn 2023-2024 (yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 23 Mai 2023) ac yn cymharu'r cyflogau cyfredol â'r cyflogau a fydd yn daladwy o Ebrill 2024:

Rhestr Taliadau i Aelodau	2023-2024	2024-2025
Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod	£17,600	<b>£18,666</b>
<b>Band 1:</b>		
Arweinydd	£56,100	<b>£59,498</b>
Dirprwy Arweinydd	£39,270	<b>£41,649</b>
<b>Band 2:</b>		
Aelodau'r Pwyllgor Gwaith	£33,660	<b>£35,699</b>
<b>Band 3:</b>		
Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	£26,400	<b>£27,999</b>
Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	£26,400	<b>£27,999</b>
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion	£26,400	<b>£27,999</b>
Cadeirydd y Cyngor	£26,400	<b>£27,999</b>
<b>Band 4:</b>		
Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf	£26,400	<b>£27,999</b>
<b>Band 5:</b>		
Is-Gadeirydd y Cyngor	£21,340	<b>£22,406</b>

### 2.2 Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn aros yn ei le yn 2024-25, hy cyfanswm o 17 ar gyfer Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

Bydd angen i'r Cyngor llawn gadarnhau nifer yr uwch gyflogau a fydd yn daladwy yn 2024-25 yn ei gyfarfod ym mis Mai 2024.

### 2.3 Taladau i aelodau cyfetholedig

Ar hyn o bryd, dylai aelodau cyfetholedig gael cydnabyddiaeth ariannol ar sail diwrnod neu hanner diwrnod. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi nodi newid tuag at ddefnydd amlach o gyfarfodydd a/neu gyrsiau hyfforddiant ar-lein. Mae rhain yn aml yn fyr ac mae pwyllgorau'n tueddu i gyfarfod yn fwy rheolaidd.

Felly, mae'r Panel wedi penderfynu y dylid rhoi hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod, neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Mae'r Panel hefyd yn bwriadu darparu enghreifftiau o arferion da, fel arweiniad.

Rôl	Fesul awr	Hyd at 4 awr	4 awr a throsodd
Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio	£33.50	£134	£268
Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned	£29.75	£119	£238
Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau, pwyllgorau craffu addysg a throsedd ac anrhefn a phwyllgorau archwilio	£26.25	£105	£210

## 2.4 Taliadau eraill

Gan na wnaed unrhyw newidiadau eraill o ran taliadau, bydd penderfyniadau blaenorol yn dal i sefyll.

## 3.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r penderfyniadau o fewn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2024 i 2025 (Chwefror 2024)

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2024-2025 (Chwefror 2024):

[Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2024 i 2025 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

This page is intentionally left blank



<b>CYNGOR SIR YNYS MON</b>	
<b>Pwyllgor:</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
<b>Dyddiad:</b>	20 Mawrth 2024
<b>Teitl yr adroddiad:</b>	Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	Diweddaru'r Pwyllgor ar waith y gwasanaeth mewn perthynas a chefnogaeth aelodau a llywodraethiant.
<b>Awdur:</b>	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

### Cefndir

1. Cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor yn 2023 ar nifer o faterion yn ymwneud â llywodraethiant a chefnogaeth aelodau, yn cynnwys hyfforddiant aelodau, adroddiadau blynyddol aelodau, a'r protocol cyfarfodydd hybrid.
2. Gyda'r flwyddyn ddinesig yn dirwyn i ben, mae'r adroddiad hwn yn cynnig diweddariad ar y materion hynny ac eglurhad o'r trefniadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### Protocol Cyfarfodydd Hybrid

3. Diwygiwyd y Protocol yn ystod haf 2023 er mwyn cyfuno dwy ddogfen a rhoi canllawiau clir a chyfredol i aelodau pwyllgorau'r Cyngor. Yn ystod y broses o baratoi'r protocol newydd ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Democrataidd; Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau.
4. Bwriad y Protocol ydi cefnogi ac ategu yr arweiniad a'r rheolau sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor drwy roi mwy o wybodaeth am drefniadau cyfarfodydd hybrid. Bwriedir iddo hefyd gefnogi'r Cod Ymddygiad i Aelodau drwy egluro y disgwyliadau ar aelodau wrth iddynt ymuno mewn cyfarfodydd o bell.
5. Rhannwyd y Protocol gyda aelodau ym mis Hydref a'i gyhoeddi ar fewnwyd y Cyngor. Yn dilyn hynny, diwygiwyd y datganiad cychwynnol ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor sy'n cael ei ddarllen gan Gadeirydd pwyllgor, er mwyn adlewyrchu'r prif newidiadau / negeseuon yn y Protocol. Er enghraifft, mae'n tynnu sylw at yr angen i aelodau sy'n ymuno o bell gadw eu camerâu ymlaen yn

ystod cyfarfodydd ac i roi gwybod i'r Cadeirydd os ydynt angen gadael am ba bynnag reswm.

6. Mae bron chwe mis ers i'r Protocol newydd gael ei rannu ac mae'n ymddangos ei fod wedi gwreiddio'n dda mewn i drefniadau pwyllgorau'r Cyngor. Rydym yn adolygu'r Protocol ar hyn o bryd er mwyn ystyried a oes angen ei ddiwygio ymhellach neu godi ymwybyddiaeth ymysg aelodau. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gan aelodau'r Pwyllgor wrth i ni wneud hynny.

### **Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

7. Gwnaethpwyd cryn dipyn o ymdrech yn 2023 i annog a hwyluso adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig ar eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r adroddiadau'n ofyniad statudol, ond maent yn ffordd ddefnyddiol o roi gwybod i etholwyr am y gwaith mae aelodau yn ei wneud ar ran y Cyngor ac yn gymunedol.
8. Derbyniwyd 26 adroddiad gan aelodau yn y diwedd am y cyfnod 22/23. Roedd hynny'n gynnydd sylweddol ar y flwyddyn 21/22. Mae'r holl adroddiadau wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
9. Byddwn yn anfon atgoffwr at aelodau am y drefn a'r amserlen ar gyfer 23/24 yn fuan ac yn rhannu templed wedi ei addasu. Yn dilyn sylwadau yn y Pwyllgor hwn a gan aelodau eraill, rydym wedi ceisio symleiddio rhywfaint ar y templed a defnyddio linciau i wybodaeth sydd eisoes ar wefan y Cyngor.

### **Cofrestr diddordeb aelodau**

10. Mae cofrestr diddordebau pob aelod etholedig wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
11. Anfonwyd neges gan wasanaethau democrataidd at bob aelod ym mis Medi yn eu hatgoffa i wirio'r wybodaeth a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol. Atgoffwyd aelodau hefyd i gofrestru unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau o fewn 28 diwrnod gwaith.
12. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn adolygu'r cofrestrau yn ddiweddar a byddwn yn parhau i atgoffa aelodau o'r angen i'w cadw'n gyfredol.

### **Adolygiad Datblygu Blynyddol**

13. Mae'n arfer da i bob aelod gael cynnig sgwrs datblygu flynyddol gyda arweinydd eu grŵp gwleidyddol neu rywun arall cymwys. Dylai'r sgwrsiau ddigwydd cyn diwedd Ebrill fel bod unrhyw sylwadau am ofynion hyfforddiant yn gallu cael eu hystyried ar gyfer cynllun hyfforddiant aelodau ar gyfer 24/25.

14. Rhannwyd templed gyda arweinyddion grwpiau yn ddiweddar yn cynnig strwythur ar gyfer y sgwrs. Mae'n cynnwys cwestiynau am sgiliau, gwybodaeth a llesiant aelodau.

### Rhaglen hyfforddiant aelodau

15. Cynigiwyd yr hyfforddiant canlynol i aelodau mewn 33 o sesiynau gwahanol yn ystod y flwyddyn:

<b>Hyfforddiant</b>	<b>Nifer a fynychodd</b>
Ymwybyddiaeth o Dwyll a Llygredd i Aelodau Etholedig	17
Côd ymddygiad	6
Diogelu Data	14
Cyflwyniad I Newid Hinsawdd	21
Cwynion	11
Ymwybyddiaeth Diogelu	15
Sgiliau Cadeirio	4
Arweinyddiaeth ddiogel a diogelwch personol	11
Delio hefo'r Wasg	3
Sipsiwn a Theithwyr Ymwybyddiaeth ddiwylliannol	13
Sgiliau TG 1-1	7
Egwyddorion Craffu Effeithiol	1
Ynys Hysbysodd Trawma	5
Gwrth - Hiliaeth	21
Diogelwch Personol i Gynghorwyr	1
Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar	14
Cyfansoddiad y Cyngor	1

16. Mae sesiynau hyfforddi pellach ar Rheoli Risg, Cryfhau Arweinyddiaeth a Rhentu Doeth Cymru wedi eu cynllunio cyn diwedd mis Mawrth.

17. Mae dal rhai aelodau etholedig nad ydynt wedi mynychu pob sesiwn hyfforddi mandadol unigol:

<b>Hyfforddiant</b>	<b>Nifer</b>
Diogelu	6
Diogelu Data	6
Iechyd a Diogelwch	9
Cydraddoldeb	4
Seiberddiogelwch	2

18. Rydym wedi sefydlu trefn o gyflwyno adroddiadau chwarterol i arweinyddion grŵp ar hyfforddiant aelodau eu grŵp. Bwriad hynny ydi gwella'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch unrhyw fylchau hyfforddiant, yn arbennig hyfforddiant mandadol.

19. Bydd y tim hyfforddi yn cyflwyno rhaglen hyfforddi aelodau 24/25 drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Mehefin. Erbyn hynny bydd y cynllun wedi ei ddatblygu gan ystyried unrhyw faterion a godwyd yn sgil cyfarfodydd datblygu blynyddol aelodau. Croesawu barn y Pwyllgor hefyd ar unrhyw hyfforddiant ddylai gael ei flaenoriaethu.

### **Argymhelliad**

20. I'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a chynnig sylwadau ar unrhyw rai o'r materion dan sylw.